

## CYFARFOD Y CYNGOR – 25 EBRILL, 2018

### DIWYGIO'R RHYBUDD O GYNNIG FEL YR AMLINELLIR YN EITEM 9(B) O AGENDA Y CYNGOR

**Yn unol â pharagraff 10.4.1, Rhan 4 o Gyfansoddiad y Cyngor, fe dderbyniwyd y diwygiad canlynol i'r Rhybudd o Gynnig fel y nodir yn eitem 9 (b) o agenda'r Cyngor gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol A. Morgan ac M. Webber.**

Dileu paragraff 2, ac ychwanegu: 'Mae aelodau hefyd yn nodi, oherwydd y gallu i ddefnyddio technoleg cyfathrebu ddatblygedig, dylid adolygu nifer y cynrychiolwyr sy'n cael eu hethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf er mwyn pennu lefel y gynrychiolaeth sy fwyaf cyfiawn ac effeithlon o ran costau i drigolion'.

Ym mharagraff 3, dileu 'mae modd aildrefnu wardiau'r sir er mwyn darparu balans Cynghorydd-etholwr/preswilydd sy'n fwy teg a chyfiawn gyda chymorth Gweithgor y Pwyllgor Craffu cyfrifol' ac ychwanegu 'bydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn mynd ati yn 2018/19 i asesu trefniadau ffiniau etholaethau yn Rhondda Cynon Taf. Bydd y Pwyllgor Craffu perthnasol yn trafod yr adroddiad yma.'

#### **Os cytuna'r Cyngor i'r diwygiad yma, bydd y rhybudd o gynnig fel a ganlyn:**

"Mae'r Cyngor yn nodi sawl anghysondeb o ran y gymhareb Cynghorydd-etholwr/preswilydd sawl ward yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

Mae aelodau hefyd yn nodi, oherwydd y gallu i ddefnyddio technoleg cyfathrebu ddatblygedig, dylid adolygu nifer y cynrychiolwyr sy'n cael eu hethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf er mwyn pennu lefel y gynrychiolaeth sy fwyaf cyfiawn ac effeithlon o ran costau i drigolion.

Gan gadw'r pethau yma mewn cof, bydd Aelodau yn gofyn i'r Swyddog sy'n gyfrifol am etholiadau i baratoi adroddiad ar gyfer Aelodau ynglŷn â sut bydd Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru yn mynd ati yn 2018/19 i asesu trefniadau ffiniau etholaethau yn Rhondda Cynon Taf. Bydd y Pwyllgor Craffu perthnasol yn trafod yr adroddiad yma."